Cyngor Bwrdeistref Sirol
Pen-y-bont ar Ogwr

# Amcanion

# Drafft Strategaeth y Gymraeg

# 2021-2026

## Dogfen Ymgynghori

**Dyddiad cyhoeddi**: **10 Mai 2021**

**Camau i'w cymryd:** Ymateb erbyn **18 Mehefin 2020**

**Ffôn**:(01656) 643 643

**E-bost**: consultation@bridgend.gov.uk

**Gwefan:** https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/cydraddoldeb-ac-ymgysylltu/ymgynghoriadau/

**Ymgynghoriad amcanion Strategaeth Ddrafft y Gymraeg**

## Trosolwg

Diben yr ymgynghoriad hwn yw gofyn am safbwyntiau ynghylch amcanion Strategaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer y Gymraeg 2021-2026.

Nod yr ymgynghoriad yw gofyn am farn trigolion, ein gweithlu, aelodau etholedig a rhanddeiliaid ynghylch amcanion y Gymraeg a gynigir ar gyfer 2021-2026.

Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn cael eu defnyddio'n sail ar gyfer fersiwn derfynol Strategaeth y Gymraeg 2021-2026, a weithredir o fis Medi 2021.

**Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

Yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'r Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu na cheir ei thrin yn llai ffafriol na Saesneg.

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i orfodi dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Daeth Safonau'r Gymraeg i ddisodli Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae'n cydnabod bod dwy iaith swyddogol yng Nghymru - Cymraeg a Saesneg. Mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi pobl i fyw eu bywyd drwy gyfrwng y Gymraeg, os ydynt yn dewis gwneud hynny.

**Safonau'r Gymraeg**

Cafodd Safonau ar gyfer y Gymraeg eu cyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg. Derbyniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSPO) ei hysbysiad terfynol ynghylch cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ym mis Medi 2015. Roedd yr hysbysiad hwn yn cynnwys 171 o safonau, yr oedd 144 ohonynt yn ofynnol erbyn mis Mawrth 2016, a 27 arall erbyn mis Medi 2016. Gosododd y Comisiynydd y rhain o dan bum thema.

- Cyflenwi Gwasanaeth;
- Llunio polisi;
- Hyrwyddo;
- Gweithredol;
- Cadw cofnodion.

Pwrpas y Safonau yw:

- Creu mwy o eglurder ymhlith sefydliadau ynghylch eu dyletswyddau o ran y Gymraeg
- Creu mwy o eglurder ymhlith siaradwyr Cymraeg ynghylch y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg
- Sicrhau mwy o gysondeb o ran gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg a gwella eu hansawdd

Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud hi'n ofynnol inni lunio adroddiad blynyddol sy'n amlinellu'r modd yr ydym wedi cydymffurfio â'r safonau, y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein hamcanion, a'r modd yr ydym, mewn cydweithrediad â'n partneriaid, wedi hybu'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn y fwrdeistref sirol.

**Comisiynydd y Gymraeg**
Aled Roberts yw Comisiynydd y Gymraeg. Dechreuodd ei rôl yn 2019, ac fe'i penodwyd am saith mlynedd. Gweledigaeth Comisiynydd y Gymraeg yw gweld Cymru lle gall pawb ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd. Nod pennaf y Comisiynydd yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac, ymhlith pethau eraill, gweithio tuag at sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â Saesneg. Cefnogir y Comisiynydd gan banel cynghori. Mae'n ddyletswydd statudol ar Gomisiynydd y Gymraeg i fonitro cydymffurfiaeth sefydliadau â Safonau'r Gymraeg, ac ymchwilio i gwynion ac achosion o ddiffyg cydymffurfio. Mae gan y Comisiynydd rym i weithredu camau gorfodi, dyfarniadau llys sirol a dirwyon.

## Sut i ymateb

Bydd y cyfnod ymgynghori hwn yn dechrau ar **10 Mai 2021** ac yn dod i ben ar **18 Mehefin 2021**. Gallwch ymateb neu ofyn rhagor o gwestiynau yn y ffyrdd canlynol:

**Ffôn:** (01656) 643 643
**E-bost:** consultation@bridgend.gov.uk
**Ar-lein:** Cliciwch yma i fynd i dudalen ymgynghori Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
**Drwy'r Post:** Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu, Awdurdod Lleol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB. Mae fformatau eraill hefyd ar gael ar gais.

## Diogelu data

Bydd gwybodaeth a ddarperir gennych chi ar y ffurflen hon yn cael ei defnyddio'n sail ar gyfer Strategaeth y Gymraeg 2021-2026

Bydd y Cyngor yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau cyfrinachedd, ac i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Efallai y bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu â meysydd gwasanaeth perthnasol er mwyn datblygu polisi yn y dyfodol. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw'n unol â Pholisi Cadw Data y Cyngor.

Mae gennych nifer o hawliau o dan ddeddfwriaeth diogelu data. Cewch hefyd gysylltu â ni i dynnu eich cydsyniad yn ôl a gofyn inni ddileu eich gwybodaeth bersonol ar unrhyw bryd. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn ar ein gwefan, neu gallwch gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data.

Os ydych chi'n anfodlon â'r modd yr ydym yn prosesu eich data personol, cewch wneud cwyn i'r Swyddog Diogelu Data a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## Dogfennau cysylltiedig

- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Safonau'r Gymraeg
- Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Llywodraeth Cymru: Mwy na Geiriau: Y fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol
- Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg
- Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018-2022

## Pwrpas Strategaeth y Gymraeg

Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r cyngor lunio Strategaeth pum mlynedd ar gyfer y Gymraeg. Mae'r gofyniad statudol hwn yn gysylltiedig â Mesur y Gymraeg (Cymru) a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2011. Dyma ein hail Strategaeth ar gyfer y Gymraeg, a'i nod yw adeiladu ar y cynnydd a wnaed dros y pum mlynedd diwethaf.

**Safon y Gymraeg 145**

Rhaid ichi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy’n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu’r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio’r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i’r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill)— (a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw, a (b) datganiad sy’n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid ichi adolygu’r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi’r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni)

**Safon y Gymraeg 146**

Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 rhaid ichi— (a) asesu i ba raddau yr ydych wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi, a (b) cyhoeddi’r asesiad ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn— (i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oedran y siaradwyr hynny; (ii) rhestr o’r gweithgareddau a drefnwyd gennych neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio’r Gymraeg.

Mae'r strategaeth ddrafft gyfredol yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed gennym, yn bodloni anghenion siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn y fwrdeistref sirol, y gofynion deddfwriaethol ac, yn bennaf oll, mae'n ystyrlon, yn briodol ac yn gyflawnadwy i bawb.

## Gwybodaeth berthnasol y byddwn yn ei defnyddio

Yn ogystal â gwrando ar ein trigolion, ein cymunedau a'n staff, byddwn hefyd yn defnyddio amrywiaeth o wybodaeth i'n helpu i bennu amcanion.

Byddwn yn edrych ar flaenoriaethau rhanbarthol Pen-y-bont ar Ogwr, blaenoriaethau'r Cyngor a chynlluniau cyflenwi gwasanaeth ac yn adolygu'r cynnydd y mae gwasanaethau'r Cyngor eisoes wedi'i wneud yn gysylltiedig â'r strategaeth flaenorol ar gyfer y Gymraeg.

Wrth ddyfeisio'r strategaeth rydym wedi ystyried y cyd-destun o ran polisi, a byddwn yn creu proffil iaith ar gyfer Sir Pen-y-bont ar Ogwr. Mae hyn yn golygu bod ein strategaeth yn defnyddio meini prawf sydd wedi'u sefydlu'n genedlaethol ond yn lleoleiddio'r wybodaeth a'r targedau.

Byddwn yn adolygu ffynonellau gwybodaeth cenedlaethol ac allanol, gan gynnwys amcanion strategol Comisiynydd y Gymraeg, sef:

- Dylanwadu ar bolisi er mwyn datblygu'r Gymraeg
- Ehangu hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg
- Sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg
- Hwyluso defnydd ehangach o'r Gymraeg gyda busnesau ac elusennau

## Sut rydym wedi datblygu ein Hamcanion ar gyfer Strategaeth y Gymraeg

Er mwyn datblygu ein hamcanion cydraddoldeb rydym wedi:

- Adolygu ein Strategaeth ar gyfer y Gymraeg 2016-2021, ein cynllun gweithredu ar gyfer y cyfnod hwn a'n hadroddiadau blynyddol;
- Defnyddio amcanion corfforaethol y Cyngor i gefnogi economi lwyddiannus; helpu pobl i fod yn fwy hunanddibynnol a gwneud defnydd doethach o adnoddau er mwyn helpu i greu strwythur a dull o adolygu ein hamcanion;
- Ystyried materion lleol a chenedlaethol;
- Defnyddio adborth a gawn yn rheolaidd gan drigolion, grwpiau a phartneriaid, fel fforwm y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg;
- Ystyried amcanion strategol Comisiynydd y Gymraeg;
- Nodi partneriaid allweddol a fydd yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion;
- Adolygu darpariaeth dysgu'r Gymraeg, gan gynnwys nifer y meithrinfeydd a'r ysgolion Cymraeg, a darpariaeth dysgu i oedolion;
- Creu proffil iaith ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr;
- Adolygu polisïau perthnasol gan gynnwys: Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol,Mwy na geiriau yn unig (Llywodraeth Cymru), Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a chynllun corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018 -2022

## Ein hamcanion o ran y Gymraeg

Er mwyn datblygu ein hamcanion o ran y Gymraeg byddwn yn ymgysylltu â thrigolion, staff, aelodau etholedig a rhanddeiliaid ac yn defnyddio gwybodaeth a pholisïau perthnasol. Manylir ar ein hamcanion drafft ar gyfer y Gymraeg isod:

**Amcan un:** Hybu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gweithlu

**Amcan dau:** Cynyddu ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Amcan tri:** Cefnogi a hyrwyddo'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

**Amcan Pedwar:** Hybu'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru ymhlith busnesau canol tref ac elusennau

**Amcan pump:** Annog cyfranogiad ac ymgysylltiad statudol drwy'r Gymraeg

**Amcan chwech:** Gweithredu'r lleoliadau blynyddoedd cynnar Cymraeg newydd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

## Y Broses

Pwrpas y ddogfen ymgynghori hon yw amlinellu'r amcanion trosfwaol a fydd wedyn yn ein galluogi i ddatblygu cynllun gweithredu i gefnogi ein hamcanion. Lluniwyd y ddogfen hon i ddarparu gwybodaeth am yr amcanion er mwyn rhoi cyfle i drigolion, ein gweithlu, rhanddeiliaid ac aelodau etholedig gael dweud eu dweud.
Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, bydd yr holl sylwadau a dderbynnir yn cael eu cyflwyno gerbron Cabinet yr awdurdod lleol, a'r holl safbwyntiau a fynegwyd yn cael eu hystyried wrth lunio Strategaeth y Gymraeg 2021-2026.

Dyma amserlen yr ymgynghoriad:

- Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 10 Mai 2021;
- Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 18 Mehefin 2021;
- Cyhoeddir Strategaeth y Gymraeg ym mis Medi 2021.

## Pwy yw'r ymgyngoreion

Nod yr ymgynghoriad yw gofyn am safbwyntiau trigolion, staff, aelodau etholedig a rhanddeiliaid ynghylch yr Amcanion a gynigir ar gyfer Strategaeth y Gymraeg 2021-2026.